Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cofnod datgelu: Gwybodaeth am Hywel Dda

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 4 Awst 2016, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 2 Awst 2016, sef:

A fyddai SAC cystal ag anfon ataf fanylion y diffyg o £50,000.00 a welwyd mewn gwariant ar wasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant cyfyngedig arall nad oedd yn arian parod o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn 2014-15.

Dylwn esbonio nad yw'r £50,000.00 yn ddiffyg mewn gwirionedd. Y swm hwn yw'r gwahaniaeth rhwng incwm fferyllol cyfyngedig nad yw'n arian parod, sef £3,790,000.00, a gwariant cyfyngedig nad yw'n arian parod ar wasanaethau offthalmig cyffredinol, sef £3,840,000.00. Nodir hyn yn nhabl 3.1 ar dudalen 22 o gyfrifon Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer 2014-15.

Ni chynhwysir incwm a gwariant cyfyngedig nad yw'n arian parod yng nghostau gweithredu net cyffredinol y Bwrdd Iechyd (am ei fod yn cael ei ariannu o ffynhonnell wahanol o fewn Llywodraeth Cymru) er mwyn mesur perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y ffordd rwyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost neu lythyr ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi hefyd os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips
Arbenigwr ar y Gyfraith a Moeseg